



Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant (AEF)

Pecyn Gwybodaeth

Rôl unigryw mewn addysg yng Nghymru

Dyddiad cau: 10am Dydd Llun, 30 Ionawr 2023



Cynnwys

Croeso	3
Arolygiaeth dysgu: gwrando, dysgu a newid gyda'n gilydd	4
Am bwy rydym ni'n chwilio	6
Beth fydd eich rôl yn ei olygu	7
Manyleb yr Unigolyn	8
Gwybodaeth ychwanegol	11
Sut beth ydyw i fod yn AEF?	13
Pam gweithio i Estyn?	14
Amrywiaeth a Chynhwysiant	14
Cyfleoedd yn y dyfodol	15
Amdanom ni – Ein gwaith, ein gwerthoedd	16
Buddion ymuno ag Estyn	17
Gwnewch gais nawr!	19
Proses ddethol a dyddiadau allweddol	19
Ymholiadau Pellach	21

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg ar ein [gwefan](#) neu o recriwtio@estyn.llyw.cymru

Croeso

Neges gan Owen Evans, Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Mae'n adeg gyffrous i ymuno ag Estyn. Yn y cyfnod hwn o newid i system addysg a hyfforddiant Cymru, ein blaenoriaeth ni yw sicrhau bod safonau'n rhagorol a chefnogi'r system addysg. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn:

- parhau i gyflwyno ein fframwaith arolygu newydd i ysgolion ac UC Dau, gan gynorthwyo ysgolion i gyflwyno'r cwricwlwm newydd a diwygio anghenion dysgu ychwanegol
- cyflwyno ein dull arolygu newydd ar gyfer prentisiaethau
- datblygu trefniadau arolygu newydd ar draws sectorau o Fedi 2024 ymlaen
- gweithio gyda'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd i ailgynllunio ein gwaith yn y sectorau ôl-16
- chwarae rôl arweiniol wrth ddatblygu system addysg a hyfforddiant Cymru mewn cydweithrediad â'n rhanddeiliaid
- cynorthwyo adfer yn sgil heriau Covid a ffocws ar degwch

Mae'n destun balchder i mi arwain sefydliad sydd wedi'i gydnabod fel un sy'n chwarae rhan hanfodol mewn gwella dysgu pobl ifanc yng Nghymru. Mae dysgwyr wrth galon popeth a wnawn. Mae ein pobl wedi ymrwymo i weithio ar y cyd i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i'n rhanddeiliaid sy'n darparu atebolrwydd cyhoeddus ac yn cefnogi gwelliant.

Rydym yn chwilio am yr arweinwyr disgleiriaf a'r gorau o bob cefndir i ymuno â ni i gyflawni rhagoriaeth dros bob dysgwr yng Nghymru. Mae rôl Arolygydd Ei Fawrhydi (AEF) yn un gyffrous ac amrywiol sy'n rhoi golwg freintiedig i chi o addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Gallai gweithio i Estyn fod yn gyfle datblygu rhagorol i chi. Ymunwch â ni a chewch chi sicrwydd y bydd pob dydd yn wahanol yn y rôl wobrwyl hon lle byddwch chi'n chwarae rôl hanfodol yn sicrhau bod arolygu'n brofiad cadarnhaol i bawb sy'n gysylltiedig.

Edrychwn ymlaen at dderbyn cais gennych.



Arolygiaeth dysgu: gwrando, dysgu a newid gyda'n gilydd

Mae pandemig COVID-19 wedi newid bywyd pobl a pheri heriau mawr i'n system addysg. Rydym yn ymwybodol iawn o'i effaith barhaus ar deuluoedd, gweithwyr proffesiynol a phawb sy'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant. Rydym wedi gweld cyfraniadau dewr a nodedig gan y rhai sy'n gweithio mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Gwnaed ymdrech enfawr i leihau effaith y pandemig ar blant, pobl ifanc a dysgwyr o bob oedran.

Yn 2022, dychwelom i arolygu ar y safle, gan sicrhau bod dysgwyr yn parhau'n flaenoriaeth i ni a'u bod yn cael yr addysg maent yn ei haeddu. Rydym yn ymroi i wneud ein gwaith yn brofiad cadarnhaol a chael mwy o effaith drwy ein gwaith.

Cefnogi adnewyddu a diwygio: Byddwn yn gwneud yn siŵr bod llais a phrofiad Estyn yn cael eu teimlo ar draws amrywiaeth o ddatblygiadau i sector addysg Cymru. Byddwn yn sefydlu fframwaith o weithgarwch sy'n cyd-fynd â'r newidiadau i addysg a hyfforddiant yng Nghymru a byddwn yn parhau'n sensitif i'r heriau sy'n wynebu darparwyr addysg a hyfforddiant a'u cymunedau.

Byddwn yn:

- datblygu ymhellach ein rôl fel ffynhonnell allweddol arbenigedd, meddwl ffres ac arfer effeithiol ym maes polisi addysg a hyfforddiant
- parhau i ganolbwyntio ar gymorth, yn enwedig ar themâu allweddol, gan gynnwys cyflwyno'r cwricwlwm newydd a diwygio anghenion dysgu ychwanegol
- gweithio gyda Llywodraeth Cymru, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd a'n rhanddeiliaid i gynorthwyo â diwygio addysg a hyfforddiant ôl-orfodol
- cyflwyno trefniadau arolygu diwygiedig gydag ysgolion, UC Dau a darparwyr prentisiaethau
- parhau â'n harolygiadau ar draws sefydliadau addysg bellach, awdurdodau lleol a lleoliadau eraill
- parhau ag arolygiadau darpariaeth nas cynhelir ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Cymru
- parhau i fonitro ysgolion sy'n destun pryder
- parhau â'n hystod o waith i gefnogi'r gwaith parhaus o gofrestru ysgolion annibynnol
- parhau â'n rhaglen o ymweliadau ymgysylltu a gwaith thematig a rhannu mewnwelediadau ac enghreifftiau o arfer dda a welwn ar draws Cymru
- adeiladu ar ein cydweithio a chydweithredu rhagorol ag arolygiaethau yng Nghymru, y DU a thu hwnt

2024 a'r tu hwnt – Bydd arolygu bob amser yn dwyn safbwynt annibynnol, hanfodol tuag at sicrhau ansawdd a safonau mewn ysgolion a darparwyr eraill. Ond wrth i'r newidiadau i addysg a hyfforddiant yng Nghymru esblygu ac wrth i ymagwedd darparwyr at wella aeddfedu, rydym yn datblygu trefniadau arolygu newydd o Fedi 2024 ymlaen i ategu'r ymagwedd genedlaethol at werthuso a gwella sydd:

- yn digwydd yn fwy aml
- yn cyd-fynd â gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru ac yn parhau i gefnogi'r gweithredu hwnnw
- yn gosod gwelliant parhaus wrth graidd y system addysg a hyfforddiant

Yn achos y diwygiadau i addysg a hyfforddiant ôl-16 trwy sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, byddwn yn esblygu ac yn datblygu ein trefniadau arolygu gyda'n rhanddeiliaid ôl-16.

Eisiau gwybod rhagor? Ewch i: <https://www.estyn.llyw.cymru/amdanom-ni>

Am bwy rydym ni'n chwilio

“Os ydych yn frwd o blaid addysg ac yn mwynhau cael eich herio – nid oes swydd fwy gwerthfawr”

ANDREW THORNE, AEM

Daw ein harolygwyr AEF o ystod amrywiol o gefndiroedd arwain mewn addysg a hyfforddiant. Gallwch, er enghraifft, fod yn:

- bennaeth mewn ysgol gynradd neu'n arweinydd sector cynradd mewn ysgol pob oed
- uwch arweinydd mewn ysgol uwchradd neu'n arweinydd sector uwchradd mewn ysgol pob oed
- uwch arweinydd mewn ysgol annibynnol brif ffrwd
- arweinydd â phrofiad sylweddol o ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol
- rheolwr neu arweinydd ansawdd mewn darparwr prentisiaethau dysgu yn y gwaith

Pa lwybr gyrfa bynnag y buoch arno hyd yma, bydd gennych hanes cadarn o wella gyda phrofiad o arloesi ar lefel strategol. Bydd gennych ddealltwriaeth hefyd o'r dirwedd addysg a hyfforddiant ehangach a'r rôl y mae arolygu'n ei chwarae fel grym ar gyfer gwella.

Ar gyfer yr ymarferiad recriwtio hwn, rydyn ni'n chwilio am bobl â chefnidir ym meysydd:

- addysg gynradd (mae profiad o Ddysgu Sylfaen yn ddymunol ar gyfer un o'r swyddi hyn)
- addysg uwchradd
- darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol
- ysgolion annibynnol
- dysgu yn y gwaith – prentisiaethau

Ar gyfer nifer o'r swyddi hyn, mae medrau Cymraeg yn **ddymunol**.

Heblaw am y swydd dysgu yn y gwaith, mae **Statws Athro Cymwysedig (SAC)** yn **hanfodol** ar gyfer yr holl swyddi.

Beth fydd eich rôl yn ei olygu

Byddwch yn gyfrifol am adrodd ar safonau ac ansawdd addysg a hyfforddiant mewn darparwyr ledled Cymru. Byddwch yn cyfrannu at ddatblygu a lledaenu arfer effeithiol ac yn meithrin gallu ar gyfer gwella yn y system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Mae'n gyfle unigryw i brofi a choleddu arfer mewn nifer ac amrywiaeth fawr o ddarparwyr a lleoliadau addysgol eraill; eu hethos, eu cymeriad a'u hymagwedd at y cwricwlwm ac arloesi. Lle mae darparwyr yn ei chael hi'n anodd, byddwch yn datblygu dirnadaeth fanwl o heriau a sut y gellir gwneud gwelliannau.

Bydd llawer o'ch gwaith ar y safle mewn gwahanol leoliadau, felly bydd angen i chi fod yn barod i wneud cryn dipyn o deithio ar hyd a lled Cymru, ac aros dros nos yn fynych mewn gwestai. Pa bryd bynnag y bo modd, dyrennir arolygiadau gerllaw eich cartref i chi. Wrth weithio o gartref rhwng arolygiadau, fe ddowch o hyd i gydbwysedd gwerthfawr rhwng bywyd a gwaith.

Ni fydd dau ddiwrnod fyth yr un fath. Gallent gynnwys unrhyw beth o:

- siarad â dysgwyr am eu gwaith
- ymweld â gwersi
- siarad â rhieni am ddarparwr addysg eu plentyn
- siarad ag athrawon ac arweinwyr
- ym maes ôl-16, arsylwi gweithgareddau gweithdy a siarad â chyflogwyr, hyfforddwyr ac aseswyr

Gan weithio fel arolygydd arweiniol a chyfrannu at waith ar draws ystod o sectorau, byddwch yn datblygu dealltwriaeth hanfodol o bob darparwr, gan adrodd yn wrthrychol am safonau ac effeithiolrwydd. Byddwch yn llunio barnau ar effeithiolrwydd arweinyddiaeth ym mhob darparwr, gan gynnwys pa mor dda y caiff dysgwyr eu cadw'n ddiogel.

Gan roi buddiannau pennaf dysgwyr uwchlaw pob dim arall, byddwch yn sicrhau bod eich barnau yn deg ac yn seiliedig ar dystiolaeth. Wrth rannu eich gwybodaeth a'ch arbenigedd esblygol gyda chydweithwyr, byddwch hefyd yn paratoi a chyflwyno hyfforddiant ar gyfer Arolygwyr allanol Estyn.

Byddwch yn ddelfryd ymddwyn ar gyfer ein gwerthoedd, gan weithredu bob amser er budd plant a dysgwyr, a hyrwyddo a diogelu lles plant, pobl ifanc ac oedolion bregus y byddwch yn dod i gysylltiad â nhw.

Bydd llawer o'ch gwaith yn golygu y byddwch yn rhyngweithio'n uniongyrchol gyda darparwyr, ond bydd y rôl yn mynnu hefyd eich bod yn cydbwysu heriau ychwanegol amrywiol, fel:

- cyfrannu at ddatblygiadau cenedlaethol trwy ddarparu cyngor proffesiynol a gwaith thematig
- ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol
- sicrhau ansawdd adroddiadau arolygu a gwaith thematig
- chyfrannu at ddatblygiad a newid sefydliadol

Byddwn yn rhoi i chi'r holl gymorth sydd ei angen arnoch i ragori yn y rôl a datblygu medrau newydd.

Manyleb yr Unigolyn

Mae'r tabl isod yn darparu manylion pellach ynglŷn ag y meini prawf hanfodol a dymunol, a'r modd y profir y rhain trwy gydol y broses ddethol.

Gofynion hanfodol	Profir drwy
Cymwysterau	
• Cymhwyster lefel gradd neu gymhwyster cyfwerth. • Rhaid i chi fod â chymhwyster addysgu cydnabyddedig sydd wedi arwain at Statws Athro Cymwys (SAC) - yr holl swyddi ac eithrio prentisiaethau dysgu yn y gwaith	Ffurflen gais Ffurflen gais
Profiad	
• O leiaf tair blynedd o brofiad o arweinyddiaeth neu brofiad arbenigol ar lefel uwch mewn un neu fwy o'r sectorau rydym yn eu harolygu, gyda ffocws penodol ar addysg gynradd, addysg uwchradd, darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol, ysgolion annibynnol prif ffrwd neu brentisiaethau dysgu yn y gwaith • Hanes profedig o gyflawni deilliannau gwell i ddysgwyr	Ffurflen gais Asesiad Cyfweiliad Ffurflen gais Asesiad Cyfweiliad

Gofynion hanfodol		Profir drwy
Technegol		
Ymwybyddiaeth o'r newidiadau sy'n digwydd mewn addysg ac arolygu ar hyn o bryd, a'r gallu i ddilyn y datblygiadau diweddaraf ar draws ystod eang o faterion proffesiynol		Ffurflen gais Asesiad Cyfweliad
Gwybodaeth a dealltwriaeth ddofn ac eang o faterion addysg cyfredol mewn un neu fwy o'r sectorau rydym yn eu harolygu		Cyfweliad
Dealltwriaeth o'r rhanddeiliaid allweddol mewn addysg, a'u cyd-destun gweithredol		Asesiad Cyfweliad
Dadansoddi a dehongli data a thystiolaeth i gefnogi trywyddau ymholi ac ategu barnau		Asesiad
Gallu		
Gallu i gyfathrebu'n glir ac yn effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig, gan ddangos eglurder a dylanwad		Ffurflen gais Asesiad Cyfweliad
Gallu i ddefnyddio offer TG yn effeithiol yn eich gwaith bob dydd		Ffurflen gais Asesiad
Ymddygiad – Arweinyddiaeth		
- Ysbrydoli ac ysgogi pobl eraill i ymgysylltu'n llawn â'u gwaith a bod yn ymroddedig i'w rôl - Cefnogi eich gweithredoedd a'ch penderfyniadau eich hun a'ch tîm, yn ôl yr angen, a herio'n effeithiol gan ddwyn pobl eraill i gyfrif - Croesawu ac ymateb i safbwyntiau a heriau gan bobl eraill, er gwaethaf unrhyw bwysau sy'n gwrthdaro - Hybu amrywiaeth, cynhwysiant a chyfle cyfartal, a pharchu gwahaniaethau		Ffurflen gais Asesiad Cyfweliad
Ymddygiad – Cyfathrebu a dylanwadu		
- Cymryd rhan mewn deialog broffesiynol adeiladol â chydweithwyr a rhanddeiliaid allweddol, a meithrin partneriaethau effeithiol ac ymddiriedaeth - Esbonio materion cymhleth mewn ffordd sy'n hawdd i'w deall ac yn briodol i'r gynulleidfa - Cyflwyno negeseuon anodd mewn modd eglur a sensitif, ac ystyried effaith yr iaith a ddefnyddir		Ffurflen gais Asesiad Cyfweliad

Gofynion hanfodol		Profir drwy
Bod yn eangfrydig ac yn ddiduedd wrth barchu buddiannau a barnau amrywiol pobl eraill		
Ymddygiad – Gwneud penderfyniadau effeithiol		
- Llunio barnau cadarn a gwneud penderfyniadau dibynadwy mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd beichus a dan bwysau amser - Cadarnhau eich dealltwriaeth eich hun cyn gwneud penderfyniadau, ac annog awgrymiadau arloesol a her gan bobl eraill i lywio penderfyniadau - Dadansoddi a dehongli data o ffynonellau amrywiol yn gywir i ategu penderfyniadau - Cyflwyno casgliadau rhesymol o ystod eang o dystiolaeth gymhleth - Gwneud penderfyniadau'n hyderus, hyd yn oed pan fydd manylion yn aneglur neu pan fyddant yn amhoblogaidd		Ffurflen gais Asesiad Cyfweliad
Ymddygiad – Cyflawni'n brydlon		
- Rheoli blaenoriaethau cystadleuol yn effeithiol a sicrhau y caiff deilliannau o ansawdd da eu cyflawni'n amserol - Cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol - Dangos gwydnwch a chynnal eich lefelau perfformiad eich hun mewn amgylchiadau heriol, ac annog pobl eraill i wneud yr un peth - Sicrhau bod pawb yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau eu hunain ac yn berchen arnynt		Ffurflen gais Asesiad Cyfweliad
Gofynion dymunol		Profir drwy
Technegol		
Cwblhau hyfforddiant fel Arolygydd Addysg a Hyfforddiant yn llwyddiannus (Arolygydd Cofrestredig, Arolygydd Ychwanegol neu Arolygydd Cymheiriaid)		Ffurflen gais
Gallu		
Gallu cyfathrebu'n effeithiol drwy gyfrwng y Gymraeg		Ffurflen gais Asesiad Cyfweliad

Gwybodaeth ychwanegol

Teitl y Swydd: Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant (AEF) - Gradd 6

Cyflog: £67,100 - £78,500 (cyfwerth ag amser llawn). Noder, bydd y cyflog cychwynnol fel arfer ar bwynt cyntaf y raddfa uwchlaw eich cyflog presennol (o fewn yr ystod hon), ac ar sail 'pro rata' yn unol â'ch oriau gwaith.

Hyd: Parhaol

Y Gymraeg: Rydym yn gweithio yn Gymraeg a Saesneg ac mae llawer o'n rhanddeiliaid yn ddwyieithog. Ar gyfer nifer o'r swyddi hyn, mae medrau Cymraeg yn **ddymunol**.

Diogelu - Rydym yn ymrwmo i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc ac yn disgwyl i'n holl bobl rannu'r ymrwymiad hwn. Mae rôl AEF yn mynnu cael gwiriad datgelu manylach drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG). Bydd y rôl yn dod â chi i gysylltiad uniongyrchol â phlant neu oedolion bregus, ac yn rhoi mynediad i chi i ddeunydd neu wybodaeth sensitif am blant ac oedolion bregus. Disgwylir i chi fod ag ymwybyddiaeth a'r gallu i gydymffurfio â'r polisiau a gweithdrefnau yn ymwneud ag:

- amddiffyn plant
- iechyd, diogelwch a diogeledd
- cyfrinachedd
- diogelu data,

Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor - Os yw eich cais yn llwyddiannus, bydd angen cael Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor gan y Cyfrin Gyngor cyn y gellir eich cadarnhau fel Arolygydd Ei Fawrhydi. Byddwch yn cael eich penodi'n ddarpar AEF hyd nes y ceir cymeradwyaeth gan y Cyfrin Gyngor.

Lleoliad: Mae ein prif swyddfa yng Nghaerdydd ac mae ein Harolygwyr yn gweithio o gartref. Mae ein gwaith yn cael ei wneud yng Nghymru. Yn bennaf, ar ôl cael eich penodi, yn dibynnu ar leoliad eich cartref, efallai y byddwn yn eich neilltuo i leoliad tybiannol at ddiben yr hawl i gostau teithio a chynhaliaeth a/neu yn cynnig cymorth ariannol i chi er mwyn adleoli. Dylech wirio hyn cyn ymrwmo'ch hun i unrhyw dreuliau. Os gwneir taliad, caiff ei wneud ar ôl i chi ddechrau gweithio ac mae'n rhaid i chi gytuno i ad-dalu cyfran os byddwch chi'n ymddiswyddo o fewn cyfnod penodedig. Dim ond yn y DU y gellir cyflawni'r rôl hon, ac nid dramor.

Trwydded yrru a defnydd o gar: Yn sgil y gofyniad i deithio'n fynych ledled Cymru, dylai fod trwydded yrru gyfredol gennych, a defnydd o gar neu'r gallu i wneud trefniadau teithio amgen addas.

Oriau gwaith: Ein horiau gwaith arferol yw 37 awr yr wythnos dros wythnos bum niwrnod (Llun i Gwener), heb gynnwys cinio. Mae'r rôl hon yn gofyn am deithio'n fynych ledled Cymru, a'r angen i aros i ffwrdd o gartref yn rheolaidd am hyd at bedair noson.

Rydym yn croesawu ceisiadau am oriau rhan-amser/gostyngol, rhannu swydd neu sail hyblyg arall. Os hoffech wneud cais i weithio'n hyblyg, cynhwyswch ddatganiad yn eich cais yn amlinellu'r hyblygrwydd/dewis batrwm yr hoffech i ni ei ystyried a'r rhesymau dros eich cais. Byddwn yn ystyried eich cais a'n gofynion gweithredol yn unol â'n [Polisi Gweithio Hyblyg](#).

Cenedligrwydd – I fod yn gymwys ar gyfer y rolau hyn, rhaid i chi fodloni'r gofynion cenedligrwydd a amlinellir yn yr [Arweiniad i Ymgeiswyr](#).

Sut beth ydyw i fod yn AEF?

Yn y ffilmiau a'r proffiliau canlynol, byddwch yn cyfarfod â rhai o'n harolygwyr AEF presennol a fydd yn rhannu'u profiadau gyda chi ynglŷn â sut beth ydyw i fod yn AEF, a'r agweddau ar y rôl y maent yn eu gweld yn fuddiol ac yn heriol.

Cliciwch chwarae ar y fideos i glywed gan nifer o ein harolygwyr AEF.

"Mae'r gwaith yn amrywiol, yn gymhleth ac yn heriol, ond yn waith sy'n rhoi llawer o foddhad, o wybod ein bod ni'n defnyddio ein harbenigedd i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru".

MARK EVANS, AEM



Pam gweithio i Estyn?

Mae'n lle gwych i weithio a'n pobl yw ein hadnodd mwyaf gwerthfawr. Mae ein pobl yn hynod ymroddedig i'n gwaith ac mae canlyniadau ein Harolwg Pobl ymysg y gorau yn y Gwasanaeth Sifil yn gyson.

Rydym yn gwerthfawrogi ein pobl, yn gwrandao arnynt ac yn eu hannog i ddatblygu'u medrau a'u doniau. Fel un o'n harolygwyr, cewch chi gyfleoedd dysgu a datblygu a fydd yn eich helpu chi i ddatblygu medrau gwerthfawr i helpu i symud eich gyrfa yn ei blaen. Ymysg y rhain mae dysgu unigol, dysgu mewn tîm, dysgu proffesiynol a sefydliadol, a datblygiad parhaus.

Wrth weithio o gartref rhwng arolygiadau a chyfarfodydd wyneb yn wyneb, cewch elwa o'r rhyddid a'r hyblygrwydd a ddaw yn sgil gweithio'n annibynnol, ond gyda chefnogaeth rhwydwaith eang o gydweithwyr sy'n rhannu eich angerdd dros addysg a dysgu. Efallai y bydd angen i chi weithio y tu allan i oriau arferol, gan ddibynnu ar y ddarpariaeth neu'r gwasanaeth sy'n cael ei arolygu.

Neilltuir pob AEF i dîm sector, a chânt eu cefnogi gan Gyfarwyddwr Cynorthwyol a mentor cymheiriaid yn ystod eich blwyddyn gyntaf. Ar ôl cyfnod sefydlu a dysgu cynhwysfawr, byddwch mewn cysylltiad rheolaidd â chydweithwyr o fewn eich sector chi ac ar draws sectorau eraill, yn darparu cyngor a chymorth.

Amrywiaeth a Chynhwysiant

Rydym wedi ymrwymo i gefnogi amrywiaeth a chynhwysiant – cynnwys pawb, gwerthfawrogi, parchu a chroesawu heriau syniadau, barn a phrofiadau bywyd amrywiol yn gadarnhaol. Rydym eisiau adlewyrchu'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu a gwella'r drefn o ran gwneud penderfyniadau.

Rydym yn cydnabod bod pawb yn dod â sgiliau a phrofiad gwahanol i'n sefydliad, ac mai'r amrywiaeth hon yw'r hyn sy'n gwneud sefydliad cryf. Rydym yn annog ceisiadau o'r amrywiaeth ehangaf bosibl o gefndiroedd, diwylliannau a phrofiadau. Rydym yn croesawu ceisiadau yn arbennig gan bobl o gefndir ethnig lleiafrifol yn ogystal â phobl sy'n byw ag anabledd.

Cyfleoedd yn y dyfodol

Gyda hyfforddiant parhaus, byddwch yn datblygu medrau gwerthfawr ac yn cael cyfle i:

- ddod yn arolygydd arwain sector neu'n swyddog arweiniol ar gyfer maes gwaith penodol
- cymryd rhan wrth hyfforddi Arolygwyr allanol Estyn
- cyfrannu wrth ddatblygu trefniadau a deunyddiau arolygu
- gwaith ymchwil a phrosiectau thematig
- dod yn Gyfarwyddwr Cynorthwyol

Amdanom ni – Ein gwaith, ein gwerthoedd

Ni yw'r arolygiaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Ein nod yw gwella ansawdd addysg a hyfforddiant i ddysgwyr yng Nghymru. Un o'n rolau allweddol yw arolygu addysg a hyfforddiant yng Nghymru i roi sicrwydd i'r cyhoedd a'r llywodraeth ynghylch safonau addysgol. Rydym yn helpu darparwyr addysg, fel ysgolion a cholegau, i wella ansawdd a deilliannau. Rydym hefyd yn cynghori Llywodraeth Cymru ar bolisi addysgol ac yn paratoi adroddiadau ar ystod eang o faterion a themâu addysgol.

Cenhadaeth a gweledigaeth

Ein **gweledigaeth** yw gwella ansawdd addysg a hyfforddiant, a deilliannau i'r holl ddysgwyr yng Nghymru

Ein **cenhadaeth** yw cynorthwyo darparwyr addysg a hyfforddiant i ddatblygu diwylliant o hunanwella a dysgu trwy ein cyngor, arolygu a meithrin gallu

Hamcanion strategol

Darparu atebolrwydd cyhoeddus ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau darpariaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru

Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru a'i swyddogion

Meithrin gallu i wella cyflwyno system addysg a hyfforddiant yng Nghymru

Gwerthoedd

- Rhoi dysgwyr wrth wraidd ein gwaith
- Gwrando, dysgu a chydweithio ag eraill
- Gweithredu'n ddidwyll, yn deg ac ag uniondeb
- Dangos arweinyddiaeth a gwaith tîm effeithiol
- Hybu iechyd, lles a chydaddoldeb ym mhopeth a wnawn
- Gwerthfawrogi a pharchu pobl a'u gwaith

Mae ein [Cynllun Blynyddol](https://www.estyn.llyw.cymru/amdanom-ni) yn nodi ein gweithgareddau allweddol ar gyfer y flwyddyn. Mynnwch gael gwybod mwy am ein gwaith ar ein gwefan: <https://www.estyn.llyw.cymru/amdanom-ni>.

Fel Gweision Sifil, rydym yn modelu'r gwerthoedd, yr ymddygiadau a'r safonau a amlinellir yn y [Cod y Gwasanaeth Sifil](#).

Buddion ymuno ag Estyn

Yn ychwanegol at gydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith, boddhad swydd, diwylliant cefnogol, cyfleoedd dysgu a datblygu parhaus a datblygiad proffesiynol, gallwch ddisgwyl buddion eraill hefyd, yn cynnwys y canlynol:



Cyflog cystadleuol – Yr ystod cyflog yw £67,100- £78,500. Bydd y cyflog cychwynnol fel arfer ar bwynt cyntaf y raddfa uwchlaw eich cyflog presennol (o fewn yr ystod hon). Ewch i'n gwefan i weld graddfa [gyflog gyfan Gradd 6](#). Gyda dilyniant cynyddol, byddwch chi fel arfer yn cyrraedd uchafswm y raddfa gyflog o fewn tair blynedd i ymuno



Talu am deithio a threuliau – Gwasanaeth trefnu canolog ar gyfer teithio ac aros dros nos (telir yn uniongyrchol gan Estyn). Ad-delir milltired a ffioedd parcio ceir. Lwfans prydau bwyd a lluniaeth ar gyfer arosiadau dros nos



Pensiwn rhagorol – Dewiswch o gynllun pensiwn budd-dal diffiniedig gydag Estyn yn cyfrannu hyd at 27.9% o'ch cyflog neu drefniant cyfraniad diffiniedig. Rydym yn rhan o *Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil*. Os ydych chi eisoes mewn Cynllun Pensiwn, gallwch chi rewi hyn neu'i drosglwyddo i *Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil*. Mwy o fanylion am [Ymuno â'r Cynllun Pensiwn - Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil](#).



Hawl hael i wyliau – 31 diwrnod o wyliau blynyddol, yn ogystal â 10 diwrnod o wyliau cyhoeddus / braint bob blwyddyn. Rhoddir gwyliau blynyddol ar sail 'pro rata' ar gyfer y rhai sy'n gweithio'n rhan-amser. Mae rhagor o opsiynau gwyliau â thâl / heb dâl ar gael i'r rheiny i helpu cyfuno gwaith ag ymrwymadau a chyfrifoldebau eraill mewn bywyd (e.e. seibiant gyrfa, absenoldeb tosturiol, maethu a mabwysiadu, ac ati), yn amodol ar anghenion busnes



Cymorth ar gyfer eich lles – Rydym yn darparu rhaglen cymorth i gyflogeion sy'n cynnig cyngor a chymorth cyfrinachol 24/7, yn cynnwys cwnsela cymorth emosiynol ac ymgynghorwyr arbenigol. Rydym yn cynnig gwiriad iechyd blynyddol am ddim, swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl hyfforddedig, cynllun gofal llygaid am ddim a chymhorthdal ar gyfer pigiadau rhag y fflw. Rydym wedi ennill y Wobr Arian ar gyfer y Safon Iechyd Corfforaethol am ein cymorth ar gyfer iechyd a lles. Hefyd, rydym yn darparu cyfle i fanteisio ar Gynlluniau Yswiriant Iechyd trwy *Ofal Iechyd y Gwasanaeth Sifil*.



Amrywiaeth a chynhwysiant – Rydym ni eisiau uchafu potensial pawb sy'n gweithio i ni – ni waeth beth yw eu cefndir. Rydym wedi creu amgylchedd gwaith, sy'n groesawgar, yn barchus, ac yn ddifyr i bawb, gyda chyfleoedd ar gyfer datblygiad personol a phroffesiynol



Cymorth ar gyfer bywyd teuluol – amodau hael ar gyfer absenoldeb mamolaeth, tadolaeth, mabwysiadu, absenoldeb rhiant a rennir ac absenoldeb rhiant, a gweithio hyblyg, gan gynnwys cyfleoedd i rannu swydd.



Arbedion di-dreth – Cyfle i fanteisio ar gynllun beicio i'r gwaith a chynllun aberthu cyflog car gwyrdd



Offer modern – cyfleusterau i'ch swyddfa gartref, fel gliniadur, argraffydd, ffôn symudol. Byddwn hefyd yn darparu desg, cadair a chabinet ffeilio i chi



Cymorth ariannol ychwanegol – yn cynnwys blaenswm cyflog di-log ar gyfer tocynnau teithio tymhorol a lwfans gweithio o gartref o £450 y flwyddyn



Cynigion a gostyngiadau arbennig – Cyfle i fanteisio ar amrywiaeth o ostyngiadau a chynigion arbennig ar gyfer llawer o siopau'r stryd fawr, sinemâu, archfarchnadoedd, gwyliau, tai bwyta, campfeydd ac atyniadau i deuluoedd trwy *G/wb Cymdeithasol y Gwasanaeth Sifil – Chwaraeon a Hamdden*. Cyfle i elwa ar ragor o fuddion a gwasanaethau, yn cynnwys *Cymdeithas Foduro'r Gwasanaeth Sifil, Cymdeithas Yswiriant y Gwasanaeth Sifil a'r Elusen ar gyfer Gweision Sifil*

I gael mwy o wybodaeth, ewch i'n gwefan, sef: www.estyn.llyw.cymru/amdanom-ni#gweithioini

Gwnewch gais nawr!

Ffurflen gais: Lawrlwythwch a llenwch ein ffurflen gais sydd ar gael yma: www.estyn.llyw.cymru/amdanom-ni/gweithio-i-estyn/swyddi-gwag

Dyddiad cau: 10 am ar Ddydd Llun, 30 Ionawr 2023

Anfonwch eich cais i: recriwtio@estyn.llyw.cymru

Ni allwn ystyried ceisiadau hwyr neu anghyflawn. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod eich cais yn bodloni'r gofynion y rhoddir manylion amdanynt uchod, a'i fod yn ein cyrraedd erbyn y dyddiad cau.

Rydym yn argymhell y dylech anfon eich cais drwy'r e-bost. Mae oedi wrth dderbyn post ar hyn o bryd a allai olygu bod eich cais yn cyrraedd yn hwyr. Os na allwch anfon eich cais yn electronig, cysylltwch â Shuna Lovering ar 029 2044 6336.

Trefniadau amgen neu ddogfennau hygrych: Os hoffech chi wneud cais neu gael y ddogfen hon mewn fformat arall, cysylltwch â Shuna Lovering i drafod eich gofynion

Mae'r ymarfer recriwtio hwn yn cael ei gynnal yn unol ag [Egwyddorion Recriwtio](#) Comisiwn y Gwasanaeth Sifil, a chaiff ei reoleiddio gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil.

Proses ddethol a dyddiadau allweddol

Fel rhan o'r broses ddethol, gofynnir i chi lenwi ffurflen gais yn manylu ar eich hanes o ran swyddi a'ch cymwysterau ac ateb tri chwestiwn (o fewn nifer benodol o eiriau) i ddangos tystiolaeth o sut byddwch yn bodloni'r medrau, y profiad a'r ymddygiad hanfodol ar gyfer y rôl hon, sydd wedi'u hamlinellu ym manyleb yr unigolyn. Bydd y rhain yn cael eu harchwilio hefyd mewn asesiad a chyfweliad.

Gallwch ddod o hyd i fwy o arweiniad ar lenwi eich cais yma: www.estyn.llyw.cymru/amdanom-ni/gweithio-i-estyn/swyddi-gwag

Mae'r holl ddogfennau ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Gellir cyflwyno ceisiadau yn Gymraeg, Saesneg neu'r ddwy iaith. Ni fydd cais sy'n cael ei gyflwyno'n Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais sy'n cael ei gyflwyno'n Saesneg. Gall eich cais gael ei gyfieithu i'r Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl y gofyn (yn dibynnu ar iaith fwyafriol y panel).

Mae'r broses ddethol yn cynnwys:

- **Didoli ceisiadau cychwynnol:** Bydd y bwrdd dethol yn ystyried pob cais cyflawn. Mae'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i ni yn eich cais yn bwysig o ran penderfynu a fyddwn yn eich gwahodd i'r cam dethol nesaf. Os byddwn yn cael nifer fawr o geisiadau, efallai y caiff eich cais ei roi ar "restr hir" cyn ei roi i'r panel sy'n llunio'r rhestr fer i'w ystyried. Dylech fod yn ymwybodol, yn y sefyllfa hon, efallai na fydd pawb ar y panel yn ystyried eich cais yn llawn. O ddidoli'r ceisiadau, byddwn yn creu rhestr hir o geisiadau a fydd yn cael eu gwahodd i gam yr asesiad.
- **Asesiad:** Gofynnir i chi gwblhau cyfres o dasgau fel rhan o ymarfer ysgrifenedig yn seiliedig ar waith (neu fanylion eraill yn ôl yr angen). Bydd mwy o fanylion yn cael eu rhoi yn y gwahoddiad i'r asesiad. Ar gyfer swyddi y mae'r Gymraeg yn hanfodol ar eu cyfer, byddwn yn profi'ch medrau cyfathrebu yn Gymraeg a Saesneg yn ystod yr asesiad.
- **Creu rhestr fer:** Bydd y bwrdd dethol yn ystyried sgorau'r asesiadau ac yn creu rhestr fer o bobl i'w gwahodd i gyfweliad.
- **Cyfweliad:** Rydym yn defnyddio techneg cyfweld gyfunol, sy'n ein galluogi i ddarganfod mwy amdanoch chi. Rydym yn defnyddio'r [fframwaith Proffiliau Llwyddiant](#). Yn ystod cyfweliad y panel, cewch eich holi am eich sgiliau a phrofiad a sut rydych yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl (gan gynnwys ymddygiad). Bydd y cyfweliad yn cynnwys cyflwyniad byr. Bydd mwy o fanylion yn cael eu rhoi yn y gwahoddiad i'r cyfweliad. Ar gyfer swyddi y mae'r Gymraeg yn hanfodol ar eu cyfer, byddwn yn profi'ch medrau cyfathrebu yn Gymraeg a Saesneg yn ystod y cyfweliad.

Bydd cyfweliadau'n cael eu cynnal wyneb-yn-wyneb yn ein swyddfa yng Nghaerdydd. Byddwn yn cadarnhau'r trefniadau pan fyddwn yn eich gwahodd i gyfweliad. Bydd holl gostau mynychu'r asesiadau a'r cyfweliadau ar eich traul eich hun. Ni fyddwn yn talu unrhyw gostau cludiant, llety na chynhaliath yn gysylltiedig â recriwtio.

Byddwch yn cael neges e-bost yn cadarnhau canlyniad eich cais ar bob cam dethol. Rydym yn gwerthfawrogi ei fod yn mynnu llawer o amser ac ymdrech i wneud cais am rolau a bod adborth yn rhan werthfawr o'r broses. Byddwn yn rhoi adborth llafar ar gais i unrhyw un sy'n cyrraedd y camau asesu a chyfweliad wedi i'r broses ddethol ddod i ben.

Mae'r amserlen rydym yn gweithio iddi wedi'i chrynhai isod. Os byddwch yn llwyddiannus wrth lunio'r rhestr fer, disgwylir i chi sicrhau eich bod ar gael ar ddyddiadau'r asesiad/cyfweliad. Efallai na fydd ymgeiswyr nad ydynt ar gael ar gyfer asesiad a chyfweliad ar y dyddiadau sy'n cael eu cynnig yn cael eu hystyried ar gyfer y rôl hôn.

Os bydd angen i ni newid y dyddiadau hyn, ein nod fydd rhoi cymaint â phosibl o rybudd i chi am ddyddiadau'r asessiad a chyfweliadau ag y gallwn. Os na allwch ddod i asessiad/gyfweiliad ar y dyddiad a drefnwyd, byddwn yn ceisio ei aildrefnu ond efallai na fydd hynny'n bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o ran yr amserlen benodi neu argaeledd y panel dethol.

Dyddiad cau	10:00am, Dydd Llun, 30 Ionawr 2023
Didoli cychwynnol	3 Chwefror 2023
Asesiadau	Wythnos yn dechrau 13 Chwefror 2023
Creu rhestr fer	6 Mawrth 2023
Cyfweliadau	Wythnos yn dechrau 13 Mawrth 2023
Penodiad yn dechrau	Medi 2023

*Mae dyddiadau yn agored i'w newid

Swyddi gweigion a rhestrau wrth gefn yn y dyfodol: Os oes modd eich penodi, ond nad oes swydd addas ar gael ar unwaith, efallai y byddwn yn eich ychwanegu at restr wrth gefn. Mae'r rhestr wrth gefn yn ddilys am hyd at ddeuddeg mis o'r dyddiad y byddwn yn cadarnhau canlyniad eich cais. Bydd yr e-bost canlyniad yn cadarnhau a ydych ar restr wrth gefn. Os bydd swydd wag addas yn codi yn ystod y cyfnod hwnnw, efallai y byddwn yn eich argymhell ar gyfer apwyntiad. Rydym yn penodi o'r rhestr wrth gefn yn nhrefn teilyngdod.

Ymholiadau Pellach

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am yr ymarfer recriwtio hwn nad ydym wedi eu hateb yn y pecyn hwn, cysylltwch â Shuna Lovering, ar 029 2044 6336, neu recriwtio@estyn.llyw.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg; byddwn yn ymateb i chi yn Gymraeg, ac ni fydd oedi wrth i ni ymateb.